

# Papurau Gwynfor Evans

Yn ei gartref ym Mhencarreg, ger Llanybydder, sir Gaerfyrddin, ar 21 Ebrill 2005, bu farw Dr Gwynfor Evans, llywydd Plaid Cymru o 1945 tan 1981, a'i Haelod Seneddol cyntaf erioed ym 1966, a'r gŵr a ystyrir fel tad cenedlaetholdeb Cymreig drwy gydol ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Rhwng 1973 a 2003 cyflwynodd Dr Evans i ofal y Llyfrgell Genedlaethol sawl grŵp sylweddol o'i bapurau gwleidyddol a phersonol. Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio didolwyd a threfnwyd y cyfan ohonynt gyda'r bwriad o lunio rhestr gyfansawdd o'r archif gyfan. Mae'r gwaith o lunio'r catalog bellach yn dirwyn i ben, a'r gobaith yw y bydd ar gael erbyn yr hydref.



*Canlyn James a Gwynfor Evans yn y 1960au  
(Drwy ganiatâd Mr Anvel Davies, Caerfyrddin)*

Ceir o fewn Papurau Gwynfor Evans ffeiliau o ohebiaeth gyfoethog sydd yn adlewyrchu gweithgarwch diflino Dr Evans nid yn unig ym mywyd gwleidyddol Cymru ond mewn rhychwant eang o weithgareddau diwylliannol a llenyddol a bywyd cyhoeddus Cymru. Ceir o fewn y papurau ddeunydd arbennig o gyfoethog am fudiad Heddychwyr Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac yn ddiweddarach, brwydr Tryweryn yn y 1950au hwyr, is-etholiad nodedig Caerfyrddin, Gorffennaf 1966, a'r ymgyrch hir i sicrhau'r bedwaredd sianel deledu ar gyfer rhaglenni yn yr iaith Gymraeg. Ceir

hefyd ffeiliau unigol o lythyrau oddi wrth nifer o Gymry blaenllaw, yn eu plith W. T. Pennar Davies, Islwyn Ffowc Elis, Bobi Jones, Gwenan Jones, R. Tudur Jones, E. G. Millward a D. J. Williams, Abergwaun.

Hefyd o fewn yr archif ceir ffeiliau sylweddol o ohebiaeth a phapurau ar nifer fawr o bynciau, y mwyafrif yn dyddio o'r cyfnodau pan fu Dr Gwynfor Evans yn cynrychioli Sir Gaerfyrddin yn y senedd, 1966-70 a Hydref 1974-79. Rhoddwyd gwaharddiad o hanner can mlynedd o ddyddiad diweddaraf pob ffeil ar y ffeiliau hynny sydd yn cynnwys llythyrau personol a sensitif oddi wrth etholwyr Dr Evans.

Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol Gwynfor Evans yng nghapel Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth ar ddydd Mercher, 27 Ebrill 2005. Roedd yn achlysur nodedig dros ben pan deithiodd mwy na dwy fil o alarwyr i'r dref lan môr ar gyfer y gwasanaeth. Gellir gwyllo ffilm o'r gwasanaeth ar ei hyd yn yr Archif Sgrin a Sain o fewn y Llyfrgell.

Pleser arbennig yw nodi bwriad gwasg Y Lolfa, Tal-y-bont i gyhoeddi'r cofiant llawn cyntaf i'r Dr Gwynfor Evans gan Mr Rhys Evans yn ystod mis Tachwedd 2005. Bydd y gyfrol sylweddol hon, sydd yn cynnwys mwy na 200,000 o eiriau, yn gyfraniad aruthrol at ein dealltwriaeth o hanes gwleidyddol Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

## Yr Archif Wleidyddol Gymreig Darlith Flynyddol 2005

### Cynog Dafis


'Plaid Cymru a'r Gwyrddiaid'

Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
5.30 pm Gwener, 4 Tachwedd

## WELSH HUSTINGS

Ar nos Fawrth, 26 Ebrill 2005, rhoddodd Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, anerchiad byr mewn cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan Dylan Thomas, Abertawe i lansio'r cyfeirlyfr *Welsh Hustings, 1885-2004*, llyfr gwir arloesol. Bu'r Athro Prys Morgan, Abertawe hefyd yn annerch y gynulleidfa niferus a ymgasglodd ar gyfer yr achlysur.

Mae golygydd y gyfrol, y Parch Ivor Thomas Rees, yn weinidog sydd wedi ymddeol ac yn hanesydd a dreuliodd lawer iawn o'i amser hamdden ers ymddeol yn paratōi'r gyfrol hynod ddefnyddiol hon. Anfonodd holiaduron at nifer fawr iawn o ymgeiswyr a bu'n chwilio drwy gannoedd o rifynnau o bapurau newydd er mwyn casglu'r holl wybodaeth ynghyd. Ceir rhagymadrodd byr gan y diweddar Syr Glanmor Williams (1920-2005) a fu farw yn drist iawn tra oedd y llyfr yn nwylo'r argraffwyr.



Mae'r gyfrol yn cynnwys enwau'r holl ymgeiswyr, y rhai llwyddiannus ynghyd â'r rhai aflwyddiannus, a fu'n sefyll mewn etholiadau ar gyfer Senedd San Steffan, Senedd Ewrop a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru, rhwng etholiad cyffredinol 1885 ac etholiad Ewrop 2004. Ceir ynddi fanylion bywgraffyddol llawn, yn aml rhai manwl iawn, am bron bob ymgeisydd. Mae modd felly i ymchwilyr osgoi'r dasg lafurus o chwilio drwy bapurau newydd lleol a chenedlaethol ac anerchiadau etholiad ymgeiswyr er mwyn darganfod yr wybodaeth.

Mae'r gyfrol yn cynnwys 328 o dudalennau llawn ffeithiau a mwy na 2,000 o gofnodion. Fe'i brithir â ffotograffau o nifer fawr o wleidyddion Cymreig. Argraffwyd y llyfr mewn colofnau dwbl hynod ddeniadol, gan adlewyrchu'r safonau uchel iawn a gysylltir â Gwasg Dinefwr.

Ym 1997 cyflwynodd y Parch. Ivor Rees i ofal y Llyfrgell fynegai ar gardiau i'r holl ymgeiswyr a safodd mewn etholiadau seneddol ledled Prydain Fawr rhwng 1910 a 1983. Cyhoeddodd hefyd ddwy erthygl sylweddol yng *Nghylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru* ynghyd â nifer o ysgrifau mewn cylchgronau hanesyddol Cymreig. Ei faes ymchwil yw gweinidogion yr efengyl a ddaeth hefyd yn wleidyddion. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at ddarllen ei erthyglau a'i gyfraniadau yn y dyfodol agos.


## 'Ceidwad Cyfrinachau'

Ers haf 2004, yn ystod yr awr ginio ar ddydd Mercher cyntaf pob mis yn y DRWM, mae aelod o staff y Llyfrgell wedi traddodi darlith fer i'r staff ac aelodau o'r cyhoedd. Ar 6 Hydref siaradodd Dr J. Graham Jones, Pennaeth yr Archif Wleidyddol Gymreig, ar y thema 'Ceidwad Cyfrinachau', a rhoddodd grynodedb byr o fywyd a gyrfa Albert James Sylvester CBE (1889-1989), y teipydd llaw-fer o fri a wasanaethodd fel Prif Ysgrifennydd Preifat David Lloyd George o 1923 hyd at farw LG ym Mawrth 1945. Yn syth ar ôl y ddarlith, dangoswyd yn y DRWM ddwy ffilm fer o ymweliad enwog Lloyd George â Hitler yn Bechtesgarden, hydref 1936, ffilmiau sydd bellach ymhlith daliadau'r Archif Sgrin a Sain Genedlaethol.

Amlinellodd Dr Jones sut y daeth Sylvester, gŵr o ddoniau anghyffredin a mab i dyddynnwr yn Harlaston yn swydd Stafford, i arloesi pan gymerodd nodiadau llaw-fer o drafodaethau mewn cyfarfod o'r Cabinet. Yn ddiweddarach ef oedd yn gyfrifol am redeg swyddfa Lloyd George yn Thames House, San Steffan, fe'i cynrychiolodd yn y Tŷ Cyffredin, a gweithredodd fel dolen gyswllt rhwng Lloyd George a'i feistres tymor hir Frances Stevenson.

Ar ôl marwolaeth Lloyd George, cyflogwyd Sylvester gan yr Arglwydd Beaverbrook ar gytundeb tair blynedd i weithio i Express Newspapers, ac o 1949 ymlaen bu wrthi'n ffermio ar dyddyn ger Corsham yn Wiltshire. Daliodd ati yno tan ei farwolaeth yn Hydref 1989 o fewn ychydig wythnosau i'w ben blwydd yn gant oed. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o gryn bwysigrwydd: *The Real Lloyd George* (1947) a *Life with Lloyd George* (1975). Prynwyd archif sylweddol o'i ddyddiaduron a'i bapurau gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru oddi wrth ei ferch ym 1990.

Cyhoeddwyd testun y ddarlith yn y *Journal of Liberal History*, rhif 44 (Hydref 2004), tt. 24-29. Bydd ysgrif lawer iawn mwy sylweddol yn trafod bywyd unigryw A. J. Sylvester gan yr un awdur yn ymddangos mewn rhifyn o *Gylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*.



A. J. Sylvester wrth ei deipiadur llaw yn ei wythdegau

## Merched a Gwleidyddiaeth

Roedd deunawfed ddarlith flynyddol yr Archif Wleidyddol Gymreig – ‘Merched a Gwleidyddiaeth yng Nghymru’r Ugeinfed Ganrif’ – yn achlysur arbennig o gofiadwy – y ddarlith gyntaf i’w chynnal yn y DRWM, darlithfa/sinema newydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru a agorwyd ym mis Mehefin 2004. Pleser o’r mwyaf oedd medru cynnal cyfarfod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, y ddarlith flynyddol a’r cinio ar ôl hynny o fewn adeilad y Llyfrgell am y tro cyntaf erioed. Yn unol â’r disgwyl, denodd y ddarlith gynulleidfa lawn, a braf oedd gweld yn eu plith nifer fawr o aelodau o bwyllgor ymgynghorol yr AWG.



Yr Athro Deirdre Beddoe yn traddodi Darlith Flynyddol yr AWG, 2005

Y darlithydd y tro hwn oedd yr awdur, darlithydd a darlledwraig adnabyddus Yr Athro Emeritws Deirdre Beddoe, un a fu gynt yn Athro Hanes Merched ym Mhrifysgol Morgannwg. Graddiodd mewn hanes o Goleg Brifysgol Cymru, Aberystwyth ym 1964 ac wedyn gwnaeth waith ymchwil ôl raddedig ar hanes yr oesoedd canol yn yr un coleg. Hi oedd y cyntaf i ddal cadair mewn hanes merched yn unrhyw brifysgol yn y Deyrnas Unedig. Bu’r Athro Beddoe hefyd yn aelod brwdfrydig o bwyllgor ymgynghorol yr AWG ers blynnyddoedd lawer.

Ymhlith ei chyfrolau niferus mae *Welsh Convict Women* (1979), *Back to Home Duty* (1989), *Discovering Women’s History* (1998), ac, yn fwyaf arbennig, *Out of the Shadows* (2000), astudiaeth arloesol ar hanes merched yng Nghymru’r ugeinfed ganrif a dderbyniodd gryn glod ers ei chyhoeddi. Hi hefyd yw cyd-olygydd y gyfrol uchel ei bri *Parachutes and Petticoats: Welsh Women Writing on the Second World War* (1992).

Mewn arolwg treiddgar edrychodd yr Athro Beddoe ar ddylanwad mudiad y Swffragetts ar gymunedau Cymru ddechrau’r ugeinfed ganrif cyn symud ymlaen i ddadansoddi mewn cryn fanylder gynnydd merched (neu’n fwyaf arbennig diffyg cynnydd merched) mewn etholiadau seneddol yng Nghymru ledled yr ugeinfed ganrif. Soniodd am y strategau a ddefnyddiwyd yn ddiweddar mewn ymgais i gynyddu cynrychiolaeth merched yn Senedd San Steffan a’r Cynulliad Cenedlaethol. Yr Athro Kenneth O. Morgan,

aelod o bwyllgor ymgynghorol yr AWG, a ddiolchodd i’r darlithydd mewn teyrnged a gyfeiriodd at ddatblygiad yr Archif byth ers ei sefydlu ym 1983.

Gellir darllen testun llawn y ddarlith ar dudalennau gwe ILGC yn yr adran ar yr Archif Wleidyddol Gymreig. Fe’i cyhoeddir yn fuan hefyd mewn rhifyn o *Gylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*.

## Etholiad Cyffredinol 2005

Diolch i gydweithrediad parod ein rhwydwaith o gysylltwyr yn y deugain etholaeth Gymreig a phencadlys Cymreig y prif bleidiau gwleidyddol, llwyddwyd i gasglu set bron yn gyflawn o’r manifestos, anerchiadau etholiadol a thafenni a gylchredwyd ledled Cymru yn ystod yr ymgyrch etholiadol diweddar drwy Ebrill a Mai 2005. Fe’u hychwanegwyd at Gasgliad Effemera Gwleidyddol Cymreig fel cyfres BA7, a bydd rhestr ohonynt ar gael ‘ar-lein’ yn fuan. Fel datblygiad newydd, aethpwyd ati hefyd i archifo safleoedd we y prif bleidiau gwleidyddol yn ystod ymgyrch yr etholiad.



Anerchiad etholiad Cabden Beany, Canol Caerdydd, 2005

Gan adlewyrchu’r farn gyffredinol mai mewn nifer fechan o etholaethau ymylol allweddol yr enillir etholiad, daeth yn drawiadol iawn yn ystod ymgyrch yr etholiad fod llawer iawn mwy o daflenni a chylchlythyrau wedi eu cylchredeg mewn etholaethau lle roedd y canlyniad yn ansicr nag mewn seddau oedd yn ddiogel i un blaid.

Hyd yma, ni dderbyniwyd unrhyw ddeunydd o etholaethau Mynwy a Merthyr Tudful a Rhymni. Byddem yn hynod falch i sicrhau cydweithrediad darllenwyr y *Cylchlythyr* yn yr ardaloedd hynny a all ein cynorthwyo i lenwi’r bylchau hyn ac efallai i gasglu’r deunydd ar ein rhan yn etholiadau’r dyfodol. Rydym yn awyddus i’r daliadau fod mor gyflawn â phosibl.

# Derbyniadau diweddar

## Papurau Arglwydd Crickhowell

Mae'r Arglwydd Crickhowell yn garedig iawn wedi cyflwyno i'r Llyfrgell archif fechan o'r ohebiaeth, papurau, nodiadau areithiau, datganiadau i'r wasg a thorion papur newydd a gasglodd at ei gilydd fel AS Ceidwadol Sir Benfro, 1970-87, ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ar ôl 1979. Ceir yn eu plith ddeunydd arbennig o werthfawr ar agweddau'r Ceidwadwyr at ddatganoli a materion Cymreig yn ystod y cyfnod hwn a'r ymgyrchoedd etholiadol a ymladdwyd yn chwyrn gan y rhoddwr yn yr etholaeth hynod ymylol hon.

Bu'r Arglwydd Crickhowell hefyd mor hael â chytuno i dderbyn gwahoddiad i draddodi ugeinfed ddarlith flynyddol yr AWG yn y Llyfrgell ar 3 Tachwedd 2006.



Yr Arglwydd Crickhowell

## Papurau Keith Raffan

Ychwanegodd Mr Keith Raffan at yr archif sylweddol o'i bapurau sydd eisoes ym meddiant LIGC drwy gyflwyno grŵp pellach a gasglodd ynghyd fel Aelod Rhyddfrydol Democrataidd o Senedd yr Alban ar gyfer etholaeth Canol yr Alban a Fife rhwng Mai 1999 a'i ymddiswyddiad yn Ionawr 2005. Maent yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer gwneud cymhariaeth rhwng swyddogaeth a phwerau Senedd yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru. Mae grŵp sylweddol o bapurau etholaethol

a gasglodd Mr Raffan fel AS Ceidwadol Delyn rhwng 1983 a 1992 yng ngofal Archifdy Sir Fflint ym Mhenarlâg.

## Archifau CND Cymru

Drwy garedigrwydd Miss Jill Stallard, ysgrifenyddes gyffredinol y mudiad, mae'r Llyfrgell newydd dderbyn archif sylweddol iawn o bapurau, c. 1990-2004, yn ymdrin â gweithgareddau ac ymgyrchoedd CND Cymru. Yn eu plith mae gohebiaeth, cofnodion cyfarfodydd, taflenni, posteri a baneri. Cyflwynwyd i'r Llyfrgell nifer o archifau bychain o gofnodion y mudiad yng Nghymru rhwng 1967 a 1994; lluniwyd rhestr gyfansawdd ohonynt oll ym 1996.

## Hoelion wyth y Blaid

Mae Mr Robot Gruffudd wedi cyflwyno i'r Llyfrgell y papurau a gasglwyd ynghyd gan ei dad yr Athro J. Gwyn Griffiths (1911-2004), y mwyafrif yn llythyrau'n ymwneud â chyfrol a olygwyd ganddo ar D. J. Williams, Abergwaun. Yn eu plith ceir llythyrau oddi wrth Kate Roberts, Saunders Lewis, Lewis Valentine, D. Gwenallt Jones, Gwynfor Evans, Aneirin Talfan Davies a Bobi Jones. Ceir hefyd bapurau'n ymdrin â Phlaid Cymru, gan gynnwys llyfr cofnodion cangen Abertawe, 1948-58, a phapurau amrywiol eraill. Eu cyfeirnod bellach yw NLW ex 2337.

Maent hefyd yn cynnwys papurau pellach, c. 1954-63, y bardd a'r cenedlaetholwr Harri Webb (1920-94), yn eu plith llythyrau, cofnodion yn ymwneud â Phlaid Cymru, cofnodion cyfarfodydd Mudiad Senedd i Gymru, erthyglau a deunydd amrywiol a fwriadwyd, mae'n debyg, ar gyfer ei gyhoeddi yn y *Welsh Nation*, torion o'r wasg a deunydd printiedig. Ychwanegwyd hwy at Bapurau Harri Webb.

## Cyfle i Ddisgleirio

Drwy garedigrwydd Mr David Melding, AC, derbyniwyd copi o arraith arwyddocaol Mr Nick Bourne 'Ceidwadaeth yng Nghymru: Cyfle i

Ddisgleirio'. Mr Bourne yw arweinydd y Ceidwadwyr Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol. Traddodwyd y ddarlith dreiddgar hon ar 9 Mawrth 2005 yng Nghanolfan Rheolaeth Gymreig, Prifysgol Caerdydd.

## Mudiad Gwerin

Ymhlith papurau'r diweddar Mr Harri Gwynn (1913-85) a gyflwynwyd yn ddiweddar i'r Llyfrgell gan ei weddw Dr Eirwen Gwynn, Tal-y-bont, ger Aberystwyth, ceir grŵp bychan o gofnodion Mudiad Gwerin, y garfan wladgarol hynod ddylanwadol a sefydlwyd yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor ddiwedd y 1930au. Ceir yn eu plith lyfr cofnodion, 1936-37, sydd o ddiddordeb arbennig, a nifer o lythyrau oddi wrth Goronwy O. Roberts. Mae rhai o'r llythyrau ymhlith yr ohebiaeth gyffredinol yn y casgliad hefyd yn wleidyddol eu naws. Mae rhestr o'r papurau ar y gweill.

## Cenedlaetholdeb amser rhyfel

Yn garedig iawn mae Mr Rhys Evans, aelod blaenllaw o bwyllgor ymgyngorol yr AWG, wedi cyflwyno i'r Llyfrgell gopi o ffeil HO 144/22915 yn yr Archif Genedlaethol yn Kew. Ceir ynddi bapurau, 1939-41, yn ymwneud â thwf cenedlaetholdeb yng Nghymru a chynlluniau i ddefnyddio gwasanaeth y Teulu Brenhinol er mwyn ceisio rhwystro'r tueddiadau hyn. Eu cyfeirnod bellach yw NLW Facs 993.

## Rhyddfrydwyr Cymru

Mae Dr Glyn Tegai Hughes, Tregynon, Powys, un o bileri'r Blaid Ryddfrydol yng Nghymru ers degawdau lawer, wedi cyflwyno i'r Llyfrgell ffeil ddifys o ohebiaeth a phapurau'n ymdrin â'r blaid yng Nghymru. Eu prif thema yw'r ymgais i benodi trefnydd cenedlaethol ar gyfer y Blaid Ryddfrydol yng Nghymru. Eu cyfeirnod erbyn hyn yw NLW ex 2365.

Rydym yn argymhell y dylid gwneud ymholiadau ynglŷn â thelerau derbyn y papurau cyn ymweld â'r Llyfrgell. Ceir gwaharddiad ar weld neu atgynhyrchu nifer o gasgliadau diweddar yr AWG.